# Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Archifau Busnes (Cymru a Lloegr)

**Gorffennaf 2009**

# Contents


1. Crynodeb gweithredol ... 3
2. Cwmpas ... 5
3. Nodau strategol ... 6
4. Cyd-destun a chefndir y strategaeth ... 7
5. Adolygiad o'r sefyllfa gyfredol ... 10
   - 5.1 Y sector archifau corfforaethol ... 10
   - 5.2 Yr Archifau Cenedlaethol ... 10
   - 5.3 Archifdai'r awdurdodau lleol ... 10
   - 5.4 Archifau prifysgolion ... 11
   - 5.5 Amgueddfeydd cenedlaethol, lleol ac annibynnol ... 11
   - 5.6 Archifau 'pwnc' ac archifau cymunedol ... 11
   - 5.7 Hyfforddiant proffesiynol ... 12
6. Risg strategol ... 13
   - 6.1 Sefyllfa fregus archifau busnes ... 13
   - 6.2 Cynaliadwyedd y sector archifau corfforaethol ... 13
   - 6.3 Problemau rheoli casgliadau yn archifdai'r sector cyhoeddus ... 14
7. Gweithredoedd strategol ... 15
   - 7.1 Codi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o'r budd a ddaw o gadw archifau ... 15
   - 7.2 Adnabod a gwerthuso archifau busnes ... 15
   - 7.3 Datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau cryfach ... 16
   - 7.4 Arweinyddiaeth, addysg a hyfforddiant proffesiynol ... 16
8. Gweithredu ... 18
   - 8.1 Codi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o'r budd a ddaw o gadw archifau ... 18
   - 8.2 Adnabod a gwerthuso archifau busnes ... 19
   - 8.3 Datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau cryfach ... 20
   - 8.4 Arweinyddiaeth, addysg a hyfforddiant proffesiynol ... 21
9. Adnoddau ar gyfer gweithredu'r strategaeth ... 23
10. Atodiadau ... 24
    - 10.1 Data am fusnesau ... 24
    - 10.2 Arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer archifau ... 25
    - 10.3 Cyfleoedd ariannu i archifdai prifysgolion a'u gweithgareddau ... 26
    - 10.4 Y cyd-destun hanesyddol - rheoli archifau busnes ... 27
    - 10.5 Dadansoddiad SWOT Archifau Corfforaethol ... 28

Rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion sydd wedi cyfrannu ... 29

# 1. Crynodeb Gweithredol

## Archifau busnes a chymdeithas

Prydain oedd man geni'r Chwyldro Diwydiannol ac mae dogfennau hanesyddol busnesau Prydeinig yn sylwebaeth hanfodol ar ddatblygiad economaidd, gwleidyddol a chymunedol y byd yn ogystal â Phrydain.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o lwyddiannau a methiannau busnesau'n sylfaen ar gyfer arweinwyr busnes heddiw a gall y gwersi hynny fod yn gyfrwng i sicrhau mantais gystadleuol o fewn yr economi fyd-eang. Mae byd busnes, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, yn un cynhwysol; mae'n grymuso ac yn ariannu economïau cenedlaethol a lleol, gan gyffwrdd â bywydau holl ddinasyddion Prydain, yn gyflogeion o fewn busnesau neu'n ddefnyddwyr. Mae llwyddiant a methiant mewn busnes yn diffinio cymunedau – yn economaidd ac yn ffisegol - ac yn effeithio, felly, ar bobl y cymunedau hynny. Mae'n hanfodol ar gyfer cydlyniant cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol i etifeddiaeth busnesau beidio â mynd ar goll na chael ei chadw ar y cof diflanedig dynol yn unig.

Dim ond cyfran fechan iawn o hanes busnes Prydain sydd yn y casgliadau o archifau busnes sydd yn dal ar gael, ac nid yw'n adlewyrchu'n llawn yr amrywiaeth eang o weithgaredd masnachol a diwydiannol, ac yn aml nid oes modd cael gafael arnynt gan eu bod yn gymhleth heb eu catalogio, neu'n bodoli o fewn y busnesau preifat sydd yn berchen arnynt. Mae llawer o'r rheini'n anymwybodol o werth eu harchifau ac yn eu difa.

## Pam y mae cwmnïau'n rheoli eu harchifau?

Mae oddeutu 20% o gwmnïau'r FTSE 100 a llawer o gwmnïau preifat yn cyflogi archifyddion proffesiynol i roi eu harchifau busnes ar waith. Pam?

**Twf** Gellir defnyddio archifau ar gyfer marchnata a chysylltiadau â chwsmeriaid er mwyn ychwanegu at wybodaeth pobl am y brand a'u hymwybyddiaeth ohono. Mae gan archifau werth masnachol uniongyrchol fel ffynhonnell ar gyfer arloesi gyda chynnyrch newydd – maent yn llythrennol yn llawn o syniadau y gellir eu hailddarganfod a'u hail-becynnu ar gyfer y farchnad bresennol, gan gyflwyno arddulliau clasurol, retro a hynafol.

**Gwahaniaethu** Mae pob cwmni'n unigryw – gyda'i hanes ei hun am gyflawniadau, diwylliant y cwmni, enw da, cynnyrch a phobl. O ddweud hanes y cwmni – drwy gyfrwng llenyddiaeth, gwefannau a deunydd anwytho cyflogeion – gellir creu'r math o deyrngarwch a balchder sydd yn fantais gystadleuol fawr mewn marchnadoedd caled.

**Diogelu** Archifau yw cof y busnes – ac ynddynt mae gwybodaeth a thystiolaeth am weithgareddau masnachol, sydd yn mynd yn angof wrth i bobl symud ymlaen. Gall archifau fod yn dystiolaeth yn erbyn ymgyfreithiad, troseddau'n ymwneud â nod masnach, neu ymosodiad ar enw da. Ar wahân i amgylchiadau eithriadol felly maent yn ffynhonnell anghymharol o wybodaeth reolaethol.

Mae gwybodaeth am y cof corfforaethol yn dangos i weithwyr heddiw, o aelodau'r bwrdd i'r gweithwyr cyffredin, bod y cwmni wedi dal i fynd drwy gyfnodau o ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd, newid technolegol a threfniadol, twf a dirwasgiad. Beth bynnag fo'r busnes, beth bynnag fo'r sector, drwy gadw ei archifau bydd cwmni'n cadw profiad, gwybodaeth a sgiliau'r cwmni ar gof a chadw ar gyfer timau rheoli'r dyfodol. Mae'n erfyn cryf ac yn un sydd yn tarddu o weithgareddau busnes y cwmni o ddydd i ddydd.

## Strategaeth Genedlaethol

Bydd y strategaeth genedlaethol ar gyfer archifau busnes yn codi proffil yr archifau hyn ac yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio gan fusnesau ac ymchwilwyr, a bod casgliadau'r dyfodol yn cynrychioli'n well holl weithgaredd economaidd amrywiol y DU.

Bydd gweithredu strategaeth yn hyrwyddo gwerth masnachol archifau i'r gymuned fusnes ac yn hybu gwell ac ehangach rheolaeth o archifau o fewn y sector busnes. Bydd yn cydnabod canolfannau cenedlaethol ar gyfer archifau busnes, a thrwy gynlluniau priodol bydd yn hybu gwell gofal a rheolaeth o gasgliadau archifol o'r fath. Bydd yn sefydlu rhwydweithiau a phartneriaethau effeithiol rhwng archifyddion yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac arbenigwyr eraill sydd yn gyfrifol am reoli a defnyddio archifau busnes. Yn olaf bydd yn ychwanegu at allu a statws archifyddion busnes a chasgliadau busnes yn sgil gwell arweinyddiaeth, addysg a hyfforddiant proffesiynol.

# 2. Cwmpas

Mae'r strategaeth hon yn gwneud argymhellion ar gyfer archifau busnes yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru a Lloegr yn unig, er bod Archifau Cenedlaethol yr Alban ac Archifdy Gwladol Gogledd Iwerddon yn cefnogi'r nodau strategol.

Mae'n ymdrin â'r archifau sydd yn cael eu cadw a'u defnyddio gan gwmnïau yn y sector preifat fel asedau masnachol. Mae hefyd yn ymwneud ag archifau cwmnïau (rhai ohonynt wedi peidio â bod) sydd yn cael eu cadw yn archifdai'r awdurdodau lleol, archifdai prifysgolion ac archifdai cymunedol, llyfrgelloedd a'r sector amgueddfeydd (cenedlaethol, lleol ac annibynnol).

Yn ychwanegol at hynny, mae'r strategaeth yn targedu cofnodion hanesyddol sydd o fewn busnesau ond sydd ar hyn o bryd yn cael eu hanwybyddu fel asedau masnachol ac sydd yn aml yn cael eu difa'n ddifeddwl er y gallent fod o werth i'r busnes ac, yn y pen draw, i ymchwilwyr. Yn yr un modd, ystyrir archifau sydd mewn perygl pan mae busnesau'n cael eu prynu, neu'n symud i fan arall.

## Diffiniadau:

- Busnes yw gweithgaredd masnachol neu ddiwydiannol: gweithgynhyrchu neu fasnachu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau (fel arfer) er elw. Gall busnesau fod yn fawr (e.e. rhai sydd yn rhestr y FTSE), neu'n fach neu'n ganolig ac yn cael eu hariannu gan arian preifat neu gyhoeddus.

- Cofnodion busnes yw'r dystiolaeth ffisegol o weithgaredd busnes – yn cael eu creu, eu derbyn a'u cadw'n gyfredol fel tystiolaeth a gwybodaeth[1] – ac yn bodoli mewn amrywiol fformatau o ran cyfrwng, yn cynnwys rhai papur, digidol a chlyweledol. Archifau busnes yw'r cofnodion y mae cwmnïau neu archifdai sydd yn derbyn casgliadau'n dewis eu cadw'n barhaol am resymau masnachol, cyfreithiol a hanesyddol.

[1] Gweler ISO 15489-1:2001(E)

# 3. Nodau strategol

Hyrwyddo, rheoli a rhoi ar waith etifeddiaeth archifol busnesau Prydain drwy:

i. godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o werth eu cofnodion a'u harchifau, a darparu canllawiau a chefnogaeth gan y gymuned archifau broffesiynol

ii. codi'r nifer o archifau busnes y sector gorfforaethol a chasgliadau busnes a gedwir mewn archifdai yn y sector cyhoeddus

iii. codi proffil cofnodion busnes ymysg y cyhoedd a ledled y rhwydwaith archifol cenedlaethol a hyrwyddo, ar yr un pryd, fwy o ddefnydd ohonynt

iv. codi safonau gofal archifau busnes drwy gyfrwng enghreifftiau o ymarfer da, hyfforddiant proffesiynol a gwell isadeiledd ar gyfer cyllid a chefnogaeth.

# 4. Cyd-destun a chefndir y strategaeth

## Cyd-destun busnes

Drwy ddadansoddi data diweddar gan yr Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio ceir dealltwriaeth o strwythur y gymuned fusnes yn y DU a gellir defnyddio'r data i sicrhau bod y strategaeth yn targedu'r adrannau mwyaf priodol a chynrychioliadol o fyd busnes ym Mhrydain.

Mae oddeutu 4.5 miliwn o fusnesau'r sector preifat yn y DU, ac mae 3.3 miliwn o'r rheini'n rhai nad ydynt yn cyflogi gweithwyr (h.y. dim ond yr un perchennog sydd yn gweithio). Mae'r strategaeth hon yn targedu'r 1.2 miliwn arall sydd â gweithwyr cyflogedig, wedi eu rhannu yn ôl y dosbarthiad traddodiadol yn rhai mawr (mwy na 250 o gyflogeion), canolig (50-249 o gyflogeion), bach (10-49) a micro (1-9 o gyflogeion).

Mae'r data cyfredol (gweler atodiad 10.1) yn dangos bod y nifer sydd mewn gwaith a'r gwerth economaidd yn cynyddu wrth i faint cwmnïau gynyddu. O ganolbwyntio ar weithredu'r strategaeth ymysg busnesau mawr byddai'n ymwneud ag oddeutu 48% o'r nifer o bobl sydd mewn gwaith a mwy na 52% o drosiant y sector preifat. O ymestyn hynny er mwyn cynnwys busnesau canolig a rhai bach byddai'n ymwneud â 80% o'r nifer o bobl sydd mewn gwaith ac 84% o'r trosiant.

Er bod y strategaeth yn canolbwyntio ar fusnesau mawr, lle mae llawer o archifau corfforaethol y cwmni ar gael, mae hefyd yn ymwneud â busnesau canolig a bach. Mae hynny'n targedu'r busnesau pwysicaf ond mae hefyd yn cynnwys busnesau sydd yn fawr o ran cyfraniad economaidd ond yn fach o ran nifer y gweithwyr (mae'r 'sector gwybodaeth' yn nodwedd sydd yn gynyddol gyffredin mewn busnesau modern yn ogystal â diwydiannau traddodiadol lle mae llai o bobl yn cael eu cyflogi gan fod y gweithgareddau nad ydynt yn rhai creiddiol yn cael eu cyflawni gan weithwyr o'r tu allan).

## Y cyd-destun diwylliannol a phroffesiynol

### Cefndir y strategaeth

Yn 2003 cyhoeddodd y Tasglu Archifau *Listening to the Past, Speaking to the Future*, a oedd yn cynnwys argymhelliad y dylid creu strategaeth genedlaethol ar gyfer archifau busnes yng Nghymru a Lloegr.

Yn Ionawr 2004, cyflwynodd Syr Nicholas Goodison adroddiad i'r Trysorlys yn dwyn y teitl *Securing the Best for our Museums. Private Giving and Government Support*. Roedd yn adroddiad pellgyrhaeddol ac yn cynnwys orielau, llyfrgelloedd ac archifdai; roedd hefyd yn cyfeirio at gorfforaethau. Dywedwyd yn yr adroddiad:

> "Mae'r perygl i archifau busnes pwysig yn enfawr. Mae llawer o gwmnïau'n cadw eu harchifau'n broffesiynol … mae cwmnïau eraill yn fwy diofal ynglŷn â'r cofnodion hanesyddol hyn."

Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai Cyllid y Wlad gyflwyno datganiad o arfer, yn ei gwneud yn glir y caiff cwmnïau gynnwys cadwraeth eu harchifau busnes, a'r gost o ddarparu mynediad atynt, yn eu costau cyn cyfrifo'r dreth gorfforaethol. Mae hyn bellach yng Nghanllawiau Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi[2]. O ganlyniad i hynny galwodd Yr Archifau Cenedlaethol gyfarfod o'r prif fudd-ddeiliaid i gychwyn y broses o ffurfio strategaeth genedlaethol ar gyfer archifau busnes. Cychwynnodd y gwaith yn 2006 ar ôl sicrhau cyllid.

## Cyllid a buddsoddiad

Er 1994, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) wedi dyrannu £151m rhwng 466 o brosiectau ym maes archifau yn cynnwys 55 a oedd werth oddeutu £21m yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. [Gweler Atodiad 10.2 am ddadansoddiad]. Mae'r prosiectau archifau busnes yn cynnwys *Documenting the Workshop of the World, Pay and Power*, Y Gwaith, *Yorkshire Made*, a *Made in Suffolk*. Rhoddir grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri i sefydliadau'r sector cyhoeddus yn bennaf (yn cynnwys archifau cymunedol), ond maent ar gael ar gyfer archifau'r sector preifat os ydynt yn gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid y sector cyhoeddus i greu adnodd y gellir dangos ei fod o fudd i'r cyhoedd.

Mae'r Rhaglen Genedlaethol Grantiau Catalogio i Archifdai yn ffynhonnell arall o arian ar gyfer casgliadau o gofnodion busnes sydd gan y sector cyhoeddus. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan gonsortiwm o elusennau a arweinir gan y *Pilgrim Trust* (ac a weinyddir gan Yr Archifau Cenedlaethol) ac mae wedi sicrhau £1.3m o arian prosiect ar gyfer gatalogio archifau yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Mae cyfleoedd eraill annibynnol am arian ar gael i sector y prifysgolion, er enghraifft cafodd 54% o archifdai prifysgolion a chanddynt gasgliadau busnes arian allanol ar eu cyfer, a thraean o'r noddwyr hyn yn dod o'r sector corfforaethol (gweler Atodiad 10.3).

## Partneriaethau diwylliannol

Yn Ebrill 2000 lansiwyd y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau (MLA) fel corff anadrannol a noddir gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Yr MLA yw'r corff strategol ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn Lloegr ac mae'n hyrwyddo cydweithrediad ac arferion da er mwyn ysgogi gwasanaethau arloesol, integredig a chynaliadwy. Yn 2004, sefydlwyd CyMAL: Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru fel isadran bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Swyddogaeth CyMAL yw cyflwyno cyngor i'r Gweinidog dros Dreftadaeth a chefnogi datblygiad amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru.

Yng Ngorffennaf 2008 cyhoeddodd yr MLA adroddiad yn dwyn y teitl *Public Libraries, Archives and New Development: A Standard Charge Approach* a fydd yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod y canllawiau cynllunio iawn wedi eu sefydlu er mwyn codi arian ar gyfer llyfrgelloedd ac archifdai wrth i drefi a dinasoedd y DU ddatblygu.

[2] BIM42501 - Didyniadau penodol: gweinyddu: archifau busnes. Gweler gwefan HMRC www.hmrc.gov.uk/manuals/bimmanual/BIM42501.htm

## Y sefyllfa genedlaethol a rhyngwladol

Mae gwahaniaethau o fewn Ewrop yn y ffyrdd y mae archifau busnes yn cael eu trin. Canoli yw dull yr Archifau Busnes Cenedlaethol yn Nenmarc (a sefydlwyd ym 1948), yr Archifdy Canolog ar gyfer Cofnodion Busnes Y Ffindir (a sefydlwyd ym 1981) a'r casgliad o archifau busnes pwysig sydd gan yr Archifdy Cenedlaethol yn Norwy. Yn Ffrainc agorwyd archifdy busnes canolog - *Le Centre des Archives du Monde du Travail* - ym 1993 ac yn yr Almaen a Sweden mae nifer o archifdai busnes rhanbarthol ers llawer o flynyddoedd. Mae cydweithredu rhyngwladol o ran archifau busnes wedi cynyddu yn sgil ymdrechion y Cyngor Rhyngwladol ar Archifau, sydd ag adran ar wahân ar Archifau Busnes a Llafur.

Yn yr Alban mae Archifau Cenedlaethol yr Alban, Cyngor Archifau Busnes yr Alban a Phrifysgol Glasgow wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ers 1977 er mwyn ariannu swyddog arolygu cofnodion gyda chyfrifoldeb am gysylltu â busnesau yn y sector preifat fel ymchwilydd ac ymgynghorydd. Mae Archif Busnes yr Alban ym Mhrifysgol Glasgow yn archifdy busnes cenedlaethol *de facto* (er nad yw'n derbyn arian gan y llywodraeth). Mae'n cynnwys y casgliad mwyaf o gofnodion busnes yn benodol yn y Deyrnas Unedig.

## Y strategaeth genedlaethol ar gyfer archifau busnes : Cymru a Lloegr

Ariannwyd y strategaeth hon gan gonsortiwm o gyrff perthnasol: Yr Archifau Cenedlaethol. Cyngor Archifau Busnes, Cymdeithas yr Archifyddion, y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau, Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy CyMAL, a'r Gymdeithas Hanes Economaidd. Datblygwyd y strategaeth gan Logan McCabe Ltd, ymgynghorwyr archifau, dan arweiniad grŵp monitro a sefydlwyd gan y prif gyrff ariannu.

# 5. Adolygiad o'r sefyllfa gyfredol

Yng Nghymru a Lloegr nid oes un dull unedig o reoli cofnodion busnes (gweler Atodiad 10.4 am y datblygiad hanesyddol) ac mae'r gofynion statudol i gadw archifau busnes yn gyfyngedig iawn. Mae archifau'n cael eu cadw'n ffurfiol mewn archifdai preifat a rhai cyhoeddus ac yn anffurfiol gan unigolion, grwpiau cymunedol ac o fewn cwmnïau.

## 5.1 Y sector archifau corfforaethol

Mae gan oddeutu 20% o gwmnïau'r FTSE 100 archifdai a/neu dimau rheoli cofnodion mewnol. Mae'r cwmnïau hyn wedi sylweddoli gymaint o werth a all ddod i'r hunaniaeth gorfforaethol a chydymffurfiad, arloesedd a diddordeb gweithwyr a chwsmeriaid yn sgil rheoli archifau, ac maent bellach yn medi'r budd hwnnw. Mae'r timau'n gymharol newydd yn y darlun corfforaethol ac maent wedi datblygu'n wahanol iawn i'w gilydd - gyda phenaethiaid rhai archifdai'n gyfrifol am gasgliadau o archifau, casgliadau amgueddfaol a chelf, llyfrgelloedd, rhaglenni rheoli cofnodion (electronig) a chanolfannau cofnodion. Mae'r ffaith bod y proffesiwn yn un bach a'r swyddogaethau'n amrywiol yn ei gwneud yn anodd cymharu na chymryd dim yn ganiataol am y sector, er bod gyrfaoedd mewn archifdai corfforaethol yn ddeniadol gan eu bod fel arfer yn cynnig gwell cyflogau na'r sector cyhoeddus, a mwy o sgôp ar gyfer gweithio mewn ffyrdd mwy entrepreneuraidd. Casglwyd barn archifyddion corfforaethol am y sector mewn cynhadledd broffesiynol yn 2007 (gweler Atodiad 10.5).

## 5.2 Yr Archifau Cenedlaethol

Mae gan Yr Archifau Cenedlaethol gasgliadau pwysig o gofnodion busnes, llawer ohonynt wedi eu creu gan ddiwydiannau Prydeinig a wladolwyd yn ystod yr 20fed ganrif, er bod caffael cofnodion busnes y sector preifat y tu hwnt i'w dyletswydd statudol. Mae'r Archifau Cenedlaethol, mewn cydweithrediad â chyrff eraill yn darparu arweiniad, cyngor a chefnogaeth ar gyfer rhwydwaith y DU o archifdai ac mae gan ei adnodd unigryw – y Gofrestr Archifau Genedlaethol – fynegai ar-lein i gofnodion hanesyddol busnesau Prydeinig a roddwyd ar adnau mewn archifdai cyhoeddus neu sydd yn dal mewn dwylo preifat.

Nid oes gan Gymru ar hyn o bryd archifdy gwladol ar wahân. Er nad yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel arfer yn casglu cofnodion busnes mae'n fodlon gweithredu fel ystorfa os nad oes unman arall ar gael a chofnodion Cymreig pwysig o'r fath mewn perygl.

## 5.3 Archifdai'r awdurdodau lleol

Mae mwy na 120 o archifdai mewn siroedd a dinasoedd yng Nghymru a Lloegr yn ffurfio rhwydwaith rhanbarthol sefydledig o archifdai, ac mae casgliadau sylweddol o archifau busnes mewn nifer ohonynt. Mae llawer o'r rhain mewn dinasoedd diwydiannol yng Nghanolbarth a Gogledd Lloegr, ac mae Llyfrgell Guildhall Corfforaeth Dinas Llundain ac Archifdy Metropolitan Llundain yn rheoli'r casgliad unigol mwyaf o archifau busnes yng Nghymru a Lloegr.

Er bod y mwyafrif o archifau busnes presennol mewn archifdai awdurdodau lleol mae gan lawer o'r rhain broblemau o ran adnoddau a rheoli casgliadau. Mewn ymateb i holiadur ar-lein ym 2008, mynegodd aelodau Cymdeithas Prif Archifyddion Llywodraeth Leol (ACALG) bryderon ynghylch catalogio oedd heb ei wneud, prinder defnydd o gasgliadau, maint casgliadau presennol a rhai posibl, a diffyg arbenigedd mewnol mewn rheoli archifau busnes. Mae gan archifdai llywodraeth leol ran allweddol yn y gwaith o gadw cofnodion busnes

ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac mae angen cefnogaeth er mwyn goresgyn yr anawsterau hyn os am ddiwallu diddordeb cynyddol y cyhoedd mewn casgliadau busnes.

## 5.4 Archifau prifysgolion

Yn 2007, anfonodd Yr Archifau Cenedlaethol holiadur at brifysgolion Lloegr i ganfod beth oedd y sefyllfa mewn perthynas â'u casgliadau o archifau busnes. Derbyniwyd tri dwsin o ymatebion ac roedd gan wyth ar hugain ohonynt gasgliadau busnes.

Mae'r data'n dangos bod sector y prifysgolion yn mynd ati i gasglu cofnodion/archifau busnes ac yn llwyddo i ganfod arian gan drydydd partïon. Roedd 54% o'r prifysgolion â chasgliadau busnes wedi denu arian o ffynonellau allanol ar gyfer rheoli casgliadau ac roedd 41% o'r rhoddion yn dod o'r sector corfforaethol (fel arfer y rhiant-gwmnïau), er nad yw'r ffigwr hwn yn adlewyrchu gwerth ariannol y rhoddion. Mae'r archifdai prifysgol hyn yn llwyddo hefyd i ddefnyddio'r cofnodion busnes i hyrwyddo agenda addysgu ac ymchwil eu prifysgolion, ac at ddibenion hyfforddi ac allestyn (mae'r adborth yn Atodiad 10.3).

## 5.5 Amgueddfeydd cenedlaethol, lleol ac annibynnol

Mae gan amgueddfeydd a llyfrgelloedd cenedlaethol, a rhai rhanbarthol mawr, gasgliadau sylweddol o archifau busnes. Er enghraifft mae gan yr Amgueddfa Reilffyrdd Genedlaethol a'r V&A adrannau ar gyfer archifau o'r sector busnes megis rheilffyrdd a byd dylunio a ffasiwn. Mae gan y sector amgueddfeydd berthynas dda gyda byd masnach a diwydiant ac asiantaethau datblygu rhanbarthol, ac mae llawer o arddangosfeydd yn denu nawdd gan fusnesau oherwydd eu bod yn cynnig cyfle i hysbysebu a marchnata. Yn ogystal â hynny mae cyswllt gweithredol rhwng y proffesiynau gan fod Prif Weithredwr Yr Archifau Cenedlaethol yn aelod o Gynhadledd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol.

## 5.6 Archifau 'pwnc' ac archifau cymunedol

Mae nifer cynyddol o archifdai cymunedol, archifdai daearyddol neu archifdai pwnc yn cadw cofnodion busnes yng Nghymru a Lloegr. Mae'r casgliadau hyn yn aml yn bodoli y tu allan i'r sector archifau proffesiynol a gallant fod yn cael eu rheoli gan arbenigwyr cysylltiedig megis rheolwyr gwybodaeth, neu wirfoddolwyr a gweithwyr yn y gymuned[3]. Cydnabyddir hwy fel cyfranwyr sylweddol i'r rhwydwaith archifau busnes ac mae llawer ohonynt yn arbennig o gyfoethog o ran tystiolaeth glyweledol a llafar gan eu bod yn tystio i brofiad gweithwyr o weithio i fusnes (yn hytrach na strwythur mwy ffurfiol cofnodion busnes sydd yn tarddu o'r cwmni). Nid yw'r holl gasgliadau busnes hyn yn cael y gefnogaeth broffesiynol a'r arian sydd ar gael i sefydliadau mwy traddodiadol neu sefydledig.

[3] Er enghraifft Ymddiriedolaeth Archifol Gwaith Glyn Ebwy yng Ngwent (y diwydiant dur), a'r BATA Reminiscence and Resource Centre, Essex (y diwydiant esgidiau). www.communityarchives.gov.uk

## 5.7 Hyfforddiant proffesiynol

Mae saith o gyrsiau yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon yn dyfarnu graddau uwch mewn archifyddiaeth a chofnodion – Aberystwyth, Dundee, Glasgow, Lerpwl, Northumbria, Llundain – Coleg y Brifysgol, a Choleg y Brifysgol, Dulyn. Mae gan ddau o'r cyrsiau hyn fodiwlau archifau busnes ar wahân yn cael eu haddysgu gan ymarferwyr o'r sector corfforaethol. Mae'r modiwlau'n cael eu haddysgu gan wirfoddolwyr am dâl nominal.

Mae'r cyrsiau'n ddieithriad yn gorfod canolbwyntio ar hyfforddi myfyrwyr mewn sgiliau archifol generig yn hytrach na rhai sector-benodol ac felly mae gwir angen cefnogi a chryfhau datblygiad y rhai sydd yn ymwneud ag archifau busnes ar ôl iddynt gymhwyso, yn arbennig rhai a wynebir efallai â'r heriau sydd ynghlwm wrth gofnodion technegol iawn neu rai sydd yn gweithio mewn sefydliadau lle nad oes arbenigedd perthnasol mewn ymdrin ag archifau busnes.

Mae gweithwyr proffesiynol wedi mynegi pryder nad yw'r archifyddion sydd newydd gymhwyso'n meddu ar y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i reoli cofnodion busnes a hyrwyddo defnydd ohonynt ac mae'n amlwg bod angen hyfforddiant mwy arbenigol yn y maes hwn.

# 6. Risg strategol

## 6.1 Sefyllfa fregus archifau busnes

### i. Prinder timau proffesiynol

Dim ond lleiafrif bach o gwmnïau Prydeinig sydd yn cyflogi archifyddion a rheolwyr cofnodion proffesiynol i reoli eu cofnodion ac felly'r hyn sydd yn digwydd yn aml yw bod gweithwyr eraill y cwmni, er nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant mewn gofalu am gofnodion, yn gwneud y penderfyniadau.

### ii. Busnesau sydd yn methu

Ar wahân i drefniadau ad hoc nid oes unrhyw ddarpariaeth na chanllawiau ar hyn o bryd yn genedlaethol nac yn lleol ar gyfer achub cofnodion busnesau sydd yn methu.

### iii. Cyfyngiadau statudol

Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gadw cofnodion sydd o ddiddordeb hanesyddol er eu bod yn ffordd o gadw'r cof diwylliannol a chymdeithasol-economaidd ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae cwmnïau'n gwaredu'r cofnodion yn ddifeddwl oherwydd y goblygiadau canfyddedig o ran eu storio, rhag ofn i rywun fedru eu defnyddio mewn achos cyfreithiol. Mae'r Ddeddf Diogelu Data hefyd yn cael ei chamddehongli'n aml fel gorchymyn i ddifa unrhyw gofnodion sydd yn cynnwys data personol.

### iv. Darpariaeth ar gyfer cwmnïau'r 21ain ganrif

Nid oes ddarlun clir o'r modd y mae cofnodion cwmnïau newydd yn cael eu rheoli, yn arbennig cwmnïau sydd yn gweithredu trwy'r rhyngrwyd.

### v. Cofnodion electronig

Gellir mynd yn ôl at ddogfennau papur cwmnïau'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif a'u rheoli, ond ni fydd hynny'n bosibl gyda'r deunydd electronig sydd yn cael ei gynhyrchu erbyn hyn ac mae perygl mawr y collir cofnodion digidol cwmnïau er eu bod o werth archifol. Mae angen i'r proffesiwn cyfan ymdrin â'r broblem hon.

## 6.2 Cynaliadwyedd y sector archifau corfforaethol

### i. Dirwasgiad economaidd

Gall dirwasgiad economaidd arwain at ddiffyg buddsoddi mewn archifdai corfforaethol neu at eu cau. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y rhwydwaith archifau cenedlaethol yn benodol ar gyfer ymdrin ag archifdai corfforaethol na ofelir amdanynt bellach.

### ii. Globaleiddio, cyfuno, caffael, pryniant gan ecwiti preifat, sefydliadau'n newid neu'n adleoli

Mae'r digwyddiadau hyn yn bygwth gweithrediad archifdy corfforaethol gan na fydd o bosibl yn cael ei ystyried yn un o weithgareddau craidd y busnes.

iii. Diffyg ymwybyddiaeth o werth archifau busnes i gwmnïau

Dim ond canran fechan o gwmnïau Prydain sydd yn defnyddio eu harchifau i'w helpu i sicrhau mantais gystadleuol. Gwaredir cofnodion am nad oes neb yn sylweddoli eu gwerth.

iv. Cynrychiolaeth y sector busnes

Nid yw sgôp y sector archifau busnes presennol yn adlewyrchu mwy na rhan o fywyd corfforaethol Prydain - mae gogwydd cryf tuag at gwmnïau bancio a gwasanaethau ariannol y FTSE 100 a rhywfaint o gynrychiolaeth o gwmnïau sydd â hanes sylweddol (oddeutu 100 mlynedd) neu frandiau sefydledig.

v. Dilyniant

Mae angen i'r sector archifau corfforaethol gynnwys rhaglenni rheoli cofnodion yn eu rhiant-gwmnïau i sicrhau bod yr archifau'n parhau'n ddynamig a chynaliadwy.

## 6.3 Problemau rheoli casgliadau yn archifdai'r sector cyhoeddus

Bu adneuo archifau, i lawer o fusnesau, yn ffordd dda o sicrhau eu bod yn cael eu cadw, ond mae hyn yn codi problemau sylweddol i'r sefydliadau cyhoeddus sydd yn derbyn y casgliadau:

i. Catalogio

Gall casgliadau busnes gynrychioli cymunedau lleol yn fwy cynhwysol a chyfoethog na llawer o'r deunydd arall archifol ond oherwydd bod llawer o'r deunydd oedd yn yr archifdai cyn hynny'n dal heb ei gatalogio nid oes modd i'r union gymunedau a gynrychiolir yn yr archifau busnes eu defnyddio.

ii. Defnydd

Nid yw casgliadau busnes yn y sector cyhoeddus bob amser yn cael llawn ddefnydd oherwydd bod y cofnodion yn anodd i archifyddion ac ymchwilwyr eu defnyddio a chael budd ohonynt. Nid yw hyn yn gynaliadwy gan mai arian cyhoeddus sydd yn talu am eu storio a'u rheoli.

iii. Storio

Gall casgliadau busnes fod yn swmpus iawn yn arbennig os 'achubwyd' hwy o gwmnïau oedd yn methu, heb amser i'w harfarnu a'u chwynnu. Mae prinder lle i storio yn tanseilio'r ymdrechion i hybu mwy o ddenu casgliadau busnes.

iv. Mynediad

Mae busnesau weithiau'n cael eu hatal rhag adneuo deunydd mewn archifdai cyhoeddus oherwydd y posibilrwydd y bydd deddfwriaeth i hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd yn medru arwain at fynediad gan gystadleuwyr neu rywrai a fynnai ymgyfreithio, er nad yw'n dilyn yn awtomatig bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol.

v. Amodau adneuo

Mae'r cymorth ariannol a roddir gan adneuwyr ar gyfer catalogio, arddangos ac allestyn mewn perthynas ag archifau busnes yn amrywio'n sylweddol, ac felly hefyd amodau'r adneuo. Mae hyn yn effeithio ar reoli a defnyddio'r casgliadau yn yr hirdymor.

# 7. Gweithredoedd strategol

## 7.1 Codi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o'r budd a ddaw o gadw archifau

Mae'r strategaeth hon yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o'r budd a ddaw o gadw archifau ymysg cwmnïau mawr sydd mewn sefyllfa i gyflogi archifyddion, a chwmnïau llai, nad ydynt ar hyn o bryd yn ymwybodol o fanteision rheoli a defnyddio eu cofnodion hanesyddol, a'u cael i ddeall gwerth hynny. Cynigir dwy fenter allweddol, ar sail astudiaethau achos a chyngor ymarferol gan archifdai corfforaethol llwyddiannus (yn hytrach na'r gymuned archifol):

- Taflen gynghori am reoli archifau busnes a lunnir gyda'r bwriad o hyrwyddo gwerth yr archifau hyn
- Gwefan arfer gorau sydd yn cynnig canllawiau ymarferol i fusnesau ynglŷn â sefydlu eu harchifau a chael budd ohonynt.

Bydd y mentrau hyn, gyda'i gilydd, yn amlygu gwerth archifau i fusnesau, yn cyfleu'r safonau proffesiynol i gynulleidfaoedd newydd ac, yn y pen draw, byddant o gymorth yn y gwaith o warchod archifau busnes sydd mewn perygl.

## 7.2 Adnabod a gwerthuso archifau busnes

Cedwir archifau busnes mewn amrywiaeth fawr o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac mae'r cyfleusterau'n amrywio o ran ansawdd y storio, cadwraeth, rheolaeth a mynediad atynt. Ni chedwir archifau busnes yn y lle mwyaf amlwg bob tro, ac weithiau mae busnesau neu ymchwilwyr yn cael trafferth canfod lle mae cofnodion diwydiannau neu sectorau penodol yn cael eu cadw. Bwriedir gwella'r sefyllfa hon trwy gyfrwng tair menter newydd:

i. Bydd Yr Archifau Cenedlaethol yn sefydlu cofrestr ar-lein o arbenigeddau sefydliadau sydd yn casglu archifau, yn ganllaw i adneuwyr a defnyddwyr. Yn amodol ar drafodaethau pellach gyda'r sector, gallai sefydliadau sydd ar y gofrestr ennill yr hawl i'w disgrifio eu hunain, er enghraifft, fel "Canolfan Genedlaethol ar gyfer Archifau Adeiladu Llongau".

ii. Bydd Yr Archifau Cenedlaethol, fel rhan o'u harweinyddiaeth strategol i'r sector archifau, yn ceisio adnabod y sefydliadau hynny sydd yn barod i sefydlu canolfannau ar gyfer archifau busnes sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Bydd y canolfannau hyn yn ategu'r ddarpariaeth bresennol yn hytrach na'i dyblygu na chymryd ei lle. Gallent fod yn llochesi, pan fetho popeth arall, ar gyfer archifau busnes a adawyd yn 'amddifad' yn sgil methiant busnes, cyfuniad neu drosfeddiannu gan gorff rhyngwladol.

iii. Bydd Yr Archifau Cenedlaethol yn sicrhau pan fydd eu systemau ar gyfer canfod a mesur cyfleusterau priodol ac ansawdd gwasanaeth archifau'r sector cyhoeddus yn cael eu datblygu yn y dyfodol, eu bod hefyd ar gael i archifau corfforaethol. Bydd manylion yr asesu ar gyfer achredu archifau'r sector preifat yn cydnabod bod mynediad y cyhoedd at archifau o'r fath yn ddibynnol ar ganiatâd.

## 7.3 Datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau cryfach

Mae archifau busnes yn bodoli mewn amrywiol gymunedau archifol a gynrychiolir gan wahanol gyrff proffesiynol. Er mwyn hyrwyddo sector mwy cydlynol a chefnogol, ac i leihau'r unigrwydd proffesiynol a brofir yn aml gan archifyddion corfforaethol sydd yn gweithio o fewn cwmnïau, mae angen i archifyddion weithio i ddatblygu rhwydweithiau a chynghreiriau rhwng archifdai cyhoeddus a rhai preifat, gan rannu arferion gorau a chyfuniadau o sgiliau, a datblygu ymwybyddiaeth o ymagweddau a phryderon y naill sector a'r llall. Mae hyn yn arbennig o bwysig heddiw wrth i ddirwasgiad economaidd fygwth y sector archifau corfforaethol, a phan mae'n bosibl y bydd archifdai cyhoeddus yn gorfod ymdopi â dylifiad o gofnodion wrth i fusnesau a diwydiannau fethu.

Mae angen i archifyddion busnes ddatblygu partneriaethau gyda grwpiau presennol o ddefnyddwyr (yn cynnwys arbenigwyr diwydiannol) a rhai newydd er mwyn ceisio cynyddu'r ddealltwriaeth o archifau busnes, gan 'gyfieithu' iaith fusnes a dangos sut y gall cofnodion busnes gwrdd ag anghenion ymchwil y defnyddwyr. Hefyd, trwy fuddsoddi mewn cyfleoedd am allestyn a chynnig cefnogaeth a chyngor proffesiynol i'r gymuned fusnes, gall archifdai'r sector cyhoeddus greu partneriaethau mwy cynhyrchiol gyda chwmnïau lleol o ran adneuo casgliadau a chyfleoedd am nawdd yn y dyfodol.

Bydd Grŵp Strategol Archifau Busnes yn cael ei ffurfio i fonitro gweithrediad y strategaeth. Grŵp fydd hwn ar gyfer sector penodol o fewn strwythur Y Cyngor Cenedlaethol ar Archifau a bydd modd iddo ddatblygu mwy o bartneriaethau rhwng y sector archifau corfforaethol a grwpiau archifol eraill. Y tu allan i'r sector archifau, bydd yn cysylltu â mudiadau masnachol a phroffesiynol i wella dealltwriaeth a hybu arferion gorau o ran rheoli archifau.

## 7.4 Arweinyddiaeth, addysg a hyfforddiant proffesiynol

Mae angen arweinyddiaeth egnïol i weithredu'r strategaeth a, thrwy hynny, wella gallu a statws archifyddion busnes a chasgliadau busnes. Bydd Yr Archifau Cenedlaethol, Y Cyngor Archifau Busnes, Cymdeithas Prif Archifyddion Llywodraeth Leol a Grŵp Cofnodion Busnes Cymdeithas yr Archifyddion yn cynnig arweiniad proffesiynol yn y meysydd canlynol:

i. rheoli argyfwng – cynnig ymateb amserol a chydlynol i gasgliadau sydd mewn perygl, wrth i gwmnïau mawr fethu neu atal buddsoddi yn eu harchifau

ii. trafodaethau gyda datodwyr a derbynyddion – canfod ffordd gyflym o ymwneud â busnes sydd yn methu

iii. addysg – gweithio gydag awdurdodau addysg uwch i gynyddu'r cyfle i fyfyrwyr ymdrin ag archifau busnes mewn ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn cynnwys ysgolion busnes a chyrsiau proffesiynol mewn archifyddiaeth, yn ogystal â hyrwyddo agenda ymchwil ar gyfer archifau busnes (e.e. archwilio'r problemau sydd ynghlwm wrth gofnodion electronig, neu fesur manteision masnachol cadw archifau)

iv. eiriolaeth ar draws meysydd – denu diddordeb y sectorau amgueddfeydd a llyfrgelloedd mewn dylanwadu ar ddysgu a lledaenu egwyddorion archifol, ac mewn rhannu arferion gorau

v. allestyn rhyngwladol – arsylwi, rhyngweithio a rhwydweithio gyda chyrff rhyngwladol megis y Cyngor Rhyngwladol ar Archifau (Adran ar Archifau Busnes) i sicrhau y coleddir tueddiadau proffesiynol a mentrau dysgu newydd ac i gyfrannu at godi safonau ar draws y byd.

# 8. Gweithredu

## 8.1 Codi ymwybyddiaeth ymysg busnesau o'r budd a ddaw o gadw archifau

| **Cyf.** | **Gweithred** | **Gweithredu**<br>[corff arweiniol mewn print trwm – weler t23 am yr allwedd i'r talfyriadau] | **Nod strategol**<br>[adran 3] |
|---|---|---|---|
| 8.1.1 | Cyhoeddi taflen gynghori ar reoli archifau busnes i ddangos i gwmnïau y manteision o fuddsoddi yn eu harchifau | **YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | I<br>II |
| 8.1.2 | Datblygu gwefan arferion gorau gyda chanllawiau ymarferol ynglŷn â rheoli cofnodion ac archifau busnes (yn cynnwys astudiaethau achos, cyngor, cynllun achredu) i annog busnesau i fynd ati i reoli eu harchifau | BAC<br>BRG<br>**YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | I<br>II |
| 8.1.3 | Cyhoeddi gwefan arferion gorau ar y Rhyngrwyd gyda dolenni at wefannau sefydliadau busnes a rhai proffesiynol | **BAC**<br>BRG<br>NCA | I<br>II |
| 8.1.4 | Hyrwyddo'r strategaeth, y wefan a'r daflen gynghori ar reoli archifau busnes | **NCA**<br>BRG | I<br>II |
| 8.1.5 | Archwilio, ar y cyd ag Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol, y cyfleoedd i hyrwyddo'r daflen gynghori ar reoli archifau busnes a'r wefan ymysg busnesau bach a chanolig | ACALG<br>BAC<br>BRG<br>CyMAL<br>**NCA**<br>YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL | I<br>II |
| 8.1.6 | Gweithio gyda Busnes yn y Gymuned i ychwanegu rheoli archifau at fynegai cymunedol Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol | BAC<br>**NCA** | I<br>II |

## 8.2 Adnabod a gwerthuso archifau busnes

| **Cyf.** | **Gweithred** | **Gweithredu**<br>[corff arweiniol mewn print trwm<br>– weler t23 am yr allwedd i'r talfyriadau] | **Nod strategol**<br>[adran 3] |
|---|---|---|---|
| 8.2.1 | Archwilio'r potensial ar gyfer creu canolfan genedlaethol archifau busnes, neu fwy nag un (yn Lloegr) | **YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | II<br>III |
| 8.2.2 | Cynnwys archifau corfforaethol mewn casgliadau preifat, a rhai ar draws gwahanol feysydd, mewn unrhyw gynllun achredu ehangach a ddatblygir gan Yr Archifau Cenedlaethol a'r MLA | BAC<br>CyMAL<br>**MLA**<br>**YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | IV |
| 8.2.3 | Hyrwyddo'r cynllun achredu ymysg yr aelodau | **BAC** | IV |
| 8.2.4 | Creu cynllun ar gyfer cydnabod gweithgaredd casglu archifau busnes yn y sector cyhoeddus | **YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | IV |
| 8.2.5 | Casglu data i greu map cenedlaethol a fydd yn dangos dosbarthiad casgliadau o archifau busnes, y sectorau o'r economi a gynrychiolir, problemau capasiti etc. fel sail ar gyfer polisi yn y dyfodol | CyMAL<br>MLA<br>**YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | IV<br>VI |
| 8.2.6 | Datblygu ymhellach y Gofrestr Archifau Genedlaethol fel offeryn rhagweithiol ar gyfer monitro gofal parhaus a gaiff casgliadau o archifau busnes, a'r mynediad atynt | **YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | III<br>IV |

## 8.3 Datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau cryfach

| **Cyf.** | **Gweithred** | **Gweithredu**<br>[corff arweiniol mewn print trwm – weler t23 am yr allwedd i'r talfyriadau] | **Nod strategol**<br>[adran 3] |
|---|---|---|---|
| 8.3.1 | Datblygu partneriaethau rhwng y sector archifau corfforaethol a'r sectorau cyhoeddus a phrifysgolion i hyrwyddo secondio staff, cyfnewid sgiliau, cefnogi gwaith allestyn, rhannu gwybodaeth am ddefnyddio archifau, cysylltiadau cyhoeddus etc. | ACALG<br>**BAC**<br>**BRG**<br>CyMAL<br>MLA<br>UAS | III<br>IV |
| 8.3.2 | Datblygu rhwydwaith cryfach o archifyddion sydd yn gweithio gydag archifau busnes trwy drefnu/cymryd rhan mewn digwyddiadau a chynadleddau proffesiynol yn Llundain a'r rhanbarthau | **BAC**<br>**BRG**<br>RMS | III<br>IV |
| 8.3.3 | Hyrwyddo hyblygrwydd ar draws y meysydd o ran dulliau o warchod archifau busnes i sicrhau cynaliadwyedd casgliadau | **ACALG**<br>**BAC**<br>CyMAL<br>MLA | III<br>IV |
| 8.3.4 | Cynnal a datblygu dolenni at strategaethau a gweithgareddau cenedlaethol a rhyngwladol eraill | BAC<br>BRG<br>**YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | I<br>II<br>III<br>IV |
| 8.3.5 | Datblygu cysylltiadau proffesiynol a chefnogaeth ar gyfer sefydliadau cymunedol/ elusennol sydd yn cadw archifau busnes neu a all eu derbyn yn y dyfodol | **ACALG**<br>BRG | III<br>IV |
| 8.3.6 | Datblygu partneriaethau gyda phrifysgolion a sefydliadau academaidd i ddeall a chefnogi diddordebau ymchwil academyddion a manteisio ar eu gwybodaeth | **ABH**<br>**BAC**<br>BRG<br>MLA | III<br>IV |
| 8.3.7 | Mynd ati i ddatblygu perthynas â busnesau cenedlaethol a lleol a sefydliadau masnachol trwy gyfrwng gwaith allestyn, ymchwil hanesyddol, gwasanaethau ymgynghorol ar gyfer cofnodion etc er mwyn hyrwyddo ac annog gwell rheolaeth archifol o fewn cwmnïau, neu adneuo cofnodion | **ACALG**<br>YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL | I<br>II |

## 8.4 Arweinyddiaeth, addysg a hyfforddiant proffesiynol

| Cyf. | Gweithred | Gweithredu<br>[corff arweiniol mewn print trwm – weler t23 am yr allwedd i'r talfyriadau] | Nod strategol<br>[adran 3] |
|---|---|---|---|
| 8.4.1 | Creu tîm rheoli argyfwng sydd yn cynrychioli pob rhan o'r sector archifol i drefnu ymatebion ar sail cytundeb i archifau busnes sydd dan fygythiad | BAC<br>BRG<br>**YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | II<br>III |
| 8.4.2 | Cydweithio â Chymdeithas Ymarferwyr Ansolfedd er mwyn datblygu proses y cytunwyd arni ar gyfer achub archifau busnes ar adeg datodiad pan fydd busnes yn methu | ACALG<br>BAC<br>**YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | II |
| 8.4.3 | Archwilio'r potensial o ddefnyddio cofnodion ac archifau busnes fel rhan o feysydd llafur ysgolion busnes a rheoli, a meysydd academaidd eraill ehangach | ACALG<br>BAC<br>BRG<br>**UAS** | III |
| 8.4.4 | Hyrwyddo'r defnydd o archifau busnes mewn cyd-destun addysgol (ysgolion cynradd ac uwchradd) | **ARCW**<br>**MLA**<br>SOA | III |
| 8.4.5 | Annog prifysgolion i ymgymryd ag ymchwil i fesur y manteision y mae archifyddion a rheolwyr cofnodion yn eu cyfrannu at fusnesau a'r gymdeithas (e.e. Canolfan Ryngwladol Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol Prifysgol Nottingham) | **YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | I<br>III |
| 8.4.6 | Adnabod diddordebau ymchwil mewn archifau a chofnodion busnes mewn cydweithrediad â phrifysgolion (i gynnwys cofnodion digidol) | **FARMER**<br>**YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | III<br>IV |
| 8.4.7 | Annog rheolwyr cyrsiau archifyddiaeth a rheoli cofnodion ôl-radd i sicrhau bod y myfyrwyr yn dod yn hollol gyfarwydd ag archifau busnes (yn cynnwys rhai digidol) ac yn cael cyfleoedd i ymweld ag archifdai corfforaethau a derbyn lleoliadau profiad gwaith ynddynt | **FARMER** | IV |

| Cyf. | Gweithred | Gweithredu<br>[corff arweiniol mewn print trwm<br>– weler t23 am yr allwedd i'r talfyriadau] | Nod strategol<br>[adran 3] |
|---|---|---|---|
| 8.4.8 | Hybu cyfleoedd ehangach am hyfforddi a datblygiad proffesiynol parhaus [DPP] mewn archifau busnes (yn cynnwys cofnodion digidol). Bydd yr MLA yn gwahodd archifau busnes i gymryd rhan mewn rhaglenni DPP a lleoliadau fel rhano'u rhaglen gomisiynu strategol | **BAC**<br>**BRG**<br>**FARMER**<br>**MLA** | IV |
| 8.4.9 | Cysylltu â chyrff rhyngwladol i godi safonau mewn rheoli archifau busnes | **YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | III<br>IV |

# 9. Adnoddau ar gyfer gweithredu'r strategaeth

| **Cyf.** | **Gweithred** | **Gweithredu**<br>[corff arweiniol mewn print trwm – weler t23 am yr allwedd i'r talfyriadau] | **Nod strategol**<br>[adran 3] |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Denu a chyflogi Rheolwr Cynghori Archifau Busnes i gefnogi archifau busnes, yn cynnwys gweithredu'r strategaeth | **YR ARCHIFAU CENEDLAETHOL** | I<br>II<br>III<br>IV |
| 9.2 | Annog cydweithrediad rhwng archifyddion y sectorau cyhoeddus/preifat er mwyn cymryd mantais o ariannu trydydd parti (gyda chyngor Cynghorydd Loteri Archifau'r Cyngor Archifau Cenedlaethol) | ACALG<br>**BAC**<br>**BRG** | IV |
| 9.3 | Annog partneriaethau rhwng academyddion ac archifyddion i sicrhau cydariannu fel rhan o grantiau ymchwil academaidd | ABH<br>ACALG<br>ARCW<br>**BAC**<br>BRG<br>MLA<br>UAS | IV |
| 9.4 | Annog gweithio'n gydweithredol rhwng archifdai'r awdurdodau lleol a rhai arbenigol, archifau cymunedol a sefydliadau diwylliannol eraill (h.y. amgueddfeydd a llyfrgelloedd) i gynyddu gymaint ag y bo modd gyfleoedd am grantiau ac arian ar gyfer archifau busnes | **ACALG**<br>**BAC**<br>BRG<br>CyMAL<br>MLA<br>UAS | IV |
| 9.5 | Cynnull a noddi Grŵp Strategol Archifau Busnes (i gynnwys cynrychiolaeth o'r holl sectorau archifol) i weithredu'r strategaeth | NCA | I<br>II<br>III<br>IV |

| | |
|---|---|
| ABH | Cymdeithas Haneswyr Busnes |
| ACALG | Cymdeithas Prif Archifyddion Llywodraeth Leol |
| ARCW | Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru |
| BAC | Y Cyngor Archifau Busnes |
| BRG | Grŵp Archifau Busnes Cymdeithas yr Archifyddion |
| CyMAL | Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru |
| FARMER | Fforwm Addysg ac Ymchwil Archifau a Rheoli Cofnodion |
| MLA | Y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau |
| NCA | Y Cyngor Cenedlaethol ar Archifau |
| RMS | Cymdeithas Rheoli Cofnodion |
| SOA | Cymdeithas yr Archifyddion |
| UAS | 'Sector' Archifau Prifysgolion |

DS: bydd rhai o'r cyrff hyn yn newid yn sgil bwriadau ailstrwythuro cyfredol.
Bydd olynwyr y cyrff hyn yn ymgymryd â'r gwaith o weithredu'r strategaeth fel y bydd yn briodol.


# 10. Atodiadau

## 10.1 Data am fusnesau

Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae'r 1.2 miliwn o fusnesau sydd yn cyflogi pobl yn cael eu rhannu yn unol â'r dosbarthiad:

| | |
|---|---|
| Busnes mawr | Dros 250 o gyflogeion |
| Busnes canolig | 50 - 249 o gyflogeion |
| Busnes bach | 10 - 49 o gyflogeion |
| Microfusnes | 1 - 9 o gyflogeion |

Figure 1: Cymhariaeth yn ôl y nifer a gyflogir




*Ffynhonell: Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio, Ystadegau Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh), 2007*

## 10.2 Arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer archifau

O Ebrill 1994 hyd Fawrth 2007 dyfarnwyd £151 miliwn rhwng 466 o brosiectau ym maes archifau, yn cynnwys:

- £7.6m i 12 prosiect yn archifau cenedlaethol y DU
- £47.5m i 182 o brosiectau archifdai
- £31.2m i 48 o brosiectau ynglŷn ag archifau prifysgolion
- £65.1m i 224 o brosiectau mewn mathau eraill o archifdai, yn cynnwys amgueddfeydd
- £21.5m i 36 o brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar gasgliadau dynodedig mewn archifdai (yn Lloegr)
- £2.1m i 39 o brosiectau "Access to Archives" (A2A); £159,000 i 4 prosiect "Archives 4 All", £2.9m i Rwydwaith Archifau'r Alban; a £365,000 i Rwydwaith Archifau Cymru.
- £22.2m i 36 o brosiectau mewn archifdai ffilm a sain
- £5.1m i 10 prosiect ar gyfer gwaith cadwraethol neu waith adnewyddu ar adeiladau archifdai
- £48m i 24 o brosiectau ar gyfer codi archifdai newydd neu ymestyn rhai presennol
- £34m i 84 o brosiectau i gaffael deunydd ar gyfer archifdai

Dyfarnwyd £13m arall i brosiectau archifol a rhai llyfrgell a arweinir gan fudiadau cymunedol. Dyma enghreifftiau diweddar o brosiectau archifau busnes a gafodd grantiau:

- Documenting the Workshop of the World, Black Country history, £442,000
- Pay and Power, history of work and politics in the West Midlands, £418,000
- Y Gwaith, hanes gwaith dur Glyn Ebwy, £43,700

Prosiectau Access to Archives (A2A):

- Yorkshire Made, catalog o archifau busnes, Swydd Efrog, £45,000
- Made in Suffolk, catalog o archifau busnes, Swydd Suffolk, £35,800

*Ffynhonnell: Briffio Data gan Adran Bolisi ac Ymchwil CDL, Medi 2007*

## 10.3 Cyfleoedd ariannu i Archifdai Prifysgolion a'u gweithgareddau

Enghreifftiau o sefydliadau sydd yn rhoi arian at gasgliadau archifau busnes:

1. Y sector corfforaethol (e.e. y cwmni sydd yn gosod y deunydd ar adnau)
2. Cronfa Dreftadaeth y Loteri
3. Access to Archives (A2A)
4. Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau
5. Ymddiriedolaeth Genedlaethol er Gwarchod Llawysgrifau
6. Y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau (Lloegr)
7. Y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC)
8. Ymddiriedolaeth Leverhulme
9. Yr Academi Brydeinig
10. Sefydliad Bay

Nododd archifyddion y prifysgolion sydd â chasgliadau busnes dan eu gofal y gwneir defnydd sylweddol o'r archifau hyn gan eu sefydliadau:

- defnydd gan staff yr archifau at ddibenion addysgu -43%
- defnydd gan staff yr archifau at ddibenion ymchwil -36%
- defnydd gan staff yr archifau mewn gwaith allestyn -50%
- defnydd gan staff y brifysgol at ddibenion addysgu -68%
- defnydd gan staff y brifysgol at ddibenion ymchwil -61%
- ymchwil gan fyfyrwyr -50%

*Ffynhonnell: holiadur arolwg Yr Archifau Cenedlaethol o archifau prifysgolion, 2007*

## 10.4 Y cyd-destun hanesyddol – rheoli archifau busnes

| | |
|---|---|
| **1856** | Y Ddeddf Gwmnïau yn gwneud cadw rhai mathau cyfyngedig iawn o ddogfennaeth am gyfnod amhenodol yn orfodol |
| **1934** | Sefydlwyd y Cyngor Archifau Busnes |
| **1930au** | Banc Lloegr a Banc y Midland yn gwneud darpariaeth ar gyfer eu harchifau (gyda'r cyntaf o'r rhain yn penodi archifydd) |
| **1945** | Sefydlwyd y Gofrestr Archifau Genedlaethol (NRA) |
| **1950au** | Tynnodd yr NRA sylw at gasgliadau trwy greu mynegai o fusnesau ar wahân, a rhai archifdai sirol a threfol yn dechrau derbyn casgliadau o archifau busnes yn rhoddion neu ar fenthyg |
| **1960au** | Mwy o fusnesau'n penodi archifyddion a llyfrgellwyr ymchwil |
| **1960/70au** | Twf yn y diddordeb mewn hanes busnes a'r economi gyda'r canlyniad bod arian ar gael ar gyfer arolygon (e.e. gwaith arloesol Prifysgol Glasgow a'r Cyngor Archifau Busnes) |
| **1970/1980au** | Gostyngiad sylweddol mewn gweithgynhyrchu a diwydiannau 'trwm' yn arwain at archifdai sirol a threfol yn 'achub' llawer o gofnodion cwmnïau a oedd wedi eu dirwyn i ben |
| **1980/90au** | Cynnydd yn nifer yr archifyddion corfforaethol er mwyn manteisio ar werth cofnodion i gorfforaethau at ddibenion marchnata a busnes ac fel tystiolaeth, yn aml yn sgil rhaglenni rheoli cofnodion |
| **2008** | Oddeutu 20% o gwmnïau'r FTSE yn cyflogi archifyddion neu reolwyr cofnodion corfforaethol, a hynny o'r cyfanswm o ryw 80 o archifyddion busnes proffesiynol |

## 10.5 Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) Archifau Corfforaethol

Cryfderau (y 5 uchaf yn ôl canran):

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Dyfnder, amrywiaeth, gwerth hanesyddol casgliadau | 27% |
| 2. | Arbenigedd pobl – fel entrepreneuriaid, arweinwyr, rheolwyr, arbenigwyr | 27% |
| 3. | Ychwanegu gwerth at fusnes | 20% |
| 4. | Rhwydweithiau a phartneriaethau | 20% |
| 5. | Cefnogaeth a diddordeb academaidd | 5% |

Gwendidau (y 5 uchaf yn ôl canran):

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Mynediad, defnydd, natur anghynrychiadol | 29% |
| 2. | Delwedd gyhoeddus ac ymwybyddiaeth y cyhoedd | 23% |
| 3. | Ymwybyddiaeth wleidyddol a “dylanwad” (o fewn y busnes ac yn broffesiynol) | 23% |
| 4. | Diffyg ariannu | 17% |
| 5. | Sefyllfa fregus (diffyg sgiliau ym maes cyfryngau electronig, heb fod yn rhan annatod o’r busnes (yn ddibynnol ar bersonoliaethau) | 9% |

Cyfleoedd (y 5 uchaf yn ôl canran):

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Partneriaethau diwylliannol, addysgol (yn cynnwys arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri) | 29% |
| 2. | Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, defnydd at ddibenion y busnes | 24% |
| 3. | Rhyngrwyd, mynediad trwy’r We, digideiddio | 18% |
| 4. | Twf mewn hanes cymunedol a chymdeithasol a hanes teulu | 18% |
| 5. | Gwell Cysylltiadau Cyhoeddus | 12% |

Bygythiadau (y 5 uchaf yn ôl canran):

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Dirwasgiad a methiant busnesau (torri ar gostau, diffyg arian ar gyfer rheoli, storio, catalogio) | 47% |
| 2. | Newid cyfundrefnol (cyfuno â busnesau eraill neu eu prynu, globaleiddio, adleoli, cymhlethdod) | 31% |
| 3. | Diffyg ymwybyddiaeth ar ran y cyhoedd a busnesau o werth archifau busnes, blaenoriaeth isel | 5% |
| 4. | Llais y proffesiwn yn cael ei chwalu | 5% |
| 5. | Y gallu i ddenu pobl i weithio yn y sector preifat, diffyg sgiliau ym maes cofnodion busnes | 5% |

*Ffynhonnell: holiaduron Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a ddychwelwyd gan fynychwyr Cynhadledd y Cyngor Archifau Busnes, 2007*

# Rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion sydd wedi cyfrannu

## Grŵp Monitro'r Strategaeth

| | |
|---|---|
| Mary Ellis | CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru |
| Judy Faraday | Y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau |
| Terry Gourvish | Y Cyngor Archifau Busnes |
| Bruce Jackson | Cymdeithas Prif Archifyddion Llywodraeth Leol |
| Norman James | Yr Archifau Cenedlaethol |
| Nick Kingsley | Yr Archifau Cenedlaethol |
| Sara Kinsey | Y Cyngor Archifau Busnes |
| Aileen McClintock | Archifdy Gwladol Gogledd Iwerddon |
| Chris McKenna | Cymdeithas Haneswyr Busnes |
| Lesley Richmond | Gwasanaeth Archifau Prifysgol Glasgow |
| Alison Turton | Cymdeithas yr Archifyddion |

## Pwyllgor Ymgynghorol y Strategaeth

| | |
|---|---|
| Sophie Clapp | Boots UK Ltd |
| Eamon Dyas | News International Limited |
| Judy Faraday | Partneriaeth John Lewis |
| David Hay | BT Group ccc |
| Peter Housego | BP ccc |
| Christine McCafferty | Diageo ccc |
| Sue Garland | Diageo ccc |
| Karen Sampson | Lloyds Banking Group |
| Jeannette Strickland | Unilever ccc |
| Mark Weaver | Astra Zeneca |

## Grwpiau

Aelodau pwyllgor gwaith y Cyngor Archifau Busnes
Aelodau Cymdeithas Haneswyr Busnes
Aelodau y Cyngor Archifau Busnes
Aelodau Grŵp Archifau Busnes Cymdeithas yr Archifyddion
Aelodau Cymdeithas Prif Archifyddion Llywodraeth Leol

## Unigolion

Rydym yn ddiolchgar i'r llu o unigolion a gyfrannodd eu syniadau, eu barn a'u harbenigedd proffesiynol wrth lunio'r strategaeth. Rhaid diolch yn benodol i Robert Brown, Swyddog Datblygu Cofnodion Busnes yn Yr Archifau Cenedlaethol yn ystod 2006-2007, am ei waith ymchwil cychwynnol ac am ddatblygu'r strategaeth.

© Hawlfraint y Goron, 2009.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Katey Logan, ymgynghoriaeth archifol Logan McCabe, ar ran Yr Archifau Cenedlaethol.

Caniateir ailddefnyddio'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (ond heb gynnwys yr Arfbais Frenhinol na logos adrannol neu logos asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai eiddo'r Goron yw'r hawlfraint a rhaid dyfynnu teitl y ddogfen/cyhoeddiad gwreiddiol. Lle bo deunydd y mae gan drydydd parti hawlfraint ynddo, rhaid sicrhau caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.